

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 17eg o Orffennaf 2023 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Bethan Lawton, Richard Jones Evans, Geraint Evans, Geraint Edwards,
Richard C Evans

1. Ymddiheuriadau: Yr oedd pob un cynghorydd yn bresennol
2. Datgan diddordeb: Ni fu unrhyw Gynghorydd ddatgan buddiant
3. Derbyn cofnodion 19 Mehefin 2023:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Derbyn cofnodion 26 Mehefin 2023:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

5. Cyfrifon i'w talu:

Scottish Power	Trydan	101850	£200.75 #
B Gwilym	Cyflog	101851	£210.06
Cyllid a Thollau EM	YG	101852	£52.60
Cyngor Gwynedd	Toiled	101853	£2,000.00
Cwmni Tân Llŷn	Profi offer tân	101854	£126.60
Jones & Jones	Pentref	101855	£1,152.00
B Gwilym	Cyflog	101856	£210.06 *
Cyllid a Thollau EM	YG	101857	£52.60 *

#siec wedi ei anfon rhwng cyfarfodydd ar ddiwedd mis Mehefin 2023.

*sieciau wedi eu hawdurdodi ar gyfer costau cyflogaeth mis Awst 2023 gyda dyddiad yn niwedd mis Awst arnynt.

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.

6. Cyngor Gwynedd - Adran Amgylchedd - Caead Argyfwng o Ffordd Di-ddosbarth ym Mryncrug:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn am wybodaeth parthed beth maent yn ei atgyweirio a pa ddarn o'r ffordd sydd yn cael sylw.

7. Dail Dysynni - llythyr o ddiolch:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

8. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Tref Tywyn - Afon Fathew/pryder am lifogydd - diweddariad:

Nid oedd diweddariad.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9. Cyfoeth Naturiol Cymru - Grant dichonoldeb ar gyfer Draenio Cynaliadwy:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
Y Clerc i anfon manylion y grant ymlaen at y Cynghorwyr.

10. Ysbyty Tywyn a'r Cylch – cau ward cleifion mewnol dros dro - diweddariad:

Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Bethan Lawton:

- Y Bwrdd Iechyd wedi bod yn llwyddiannus yn penodi staff ar lefel 7, 6 a 5
- Angen penodi staff i dair swydd lefel 5 sydd yn wag
- Y Bwrdd Iechyd yn bwriadu agor y ward pan fydd swyddi gweigion nyrsys wedi eu llenwi
- Cynllun Tuag Adref wedi cychwyn gyda nyrsys yn cylchdroi o amgylch ysbytai
- Cynllun Tuag Adref yn parhau
- Trafodaeth rhwng y Bwrdd Iechyd â Hosbis Dewi Sant
- Uned mân anafiadau yn agor ar 18 Gorffennaf 2023
- Hwb Lles (Well-being Hub) yn agor ar ddydd Iau 20 Gorffennaf ac yn agor pob dydd Iau dilynol
- Yr Ysbyty yn defnyddio staff locwm dros yr haf
- Nodwyd bod staff o India wedi cychwyn yn ddiweddar yn Ysbyty Dolgellau a bydd dau yn cyrraedd Tywyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

11. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- Angen glanhau'r Pafiliwn, gyda'r toiledau yn fudr iawn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I gysylltu gyda Scrubadub er mwyn cadarnhau dyddiad glanhau
Y Cyng. Alan H Jones i gysylltu gyda'r plymiwr, Mark Cousins er mwyn trefnu sinc newydd,
cawod newydd, swîts tynnu
I gysylltu gyda Thywyn Tree Service er mwyn gofyn am ddyfynbris rhoi sylw i goeden G1 -
sydd wedi ei farcio ar adroddiad coed ac adroddiad ROSPA. Gan hefyd ofyn am ladd Eiddew.

12. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nid gwybodaeth i'w raeadru gan y Cynghorydd Sir.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

13. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Trafodwyd yr angen i dorri coed ger pont Felindre er mwyn gwella gwelededd i fodurwyr.

Nodwyd bod safon torri gwair yn y pentref ddim yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig.

PENDERFYNIAD: Y Cyng. Bethan Lawton i gyflwyno cais i Ardal Ni o dorri'r coed ger pont Felindre.
Y Cyng. Bethan Lawton i gyflwyno cwyn i Gyngor Gwynedd am safon torri gwair yn y pentref.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:02pm

Llofnod y Cadeirydd